**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**
**COFNODION:**
**Dyddiad:** 4 Mawrth 2003
**Amser:** 9:30 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Jonathan Morgan | (Ceidwadwr) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Huw Rowlands | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Rosemary Butler, Tom Middlehurst, Pauline Jarman.

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi: LEG-05-2003 (min)**
1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2003.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**
2.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau, yn y cyfarfod diwethaf, iddo grybwyll bod Clerc y Pwyllgor Dethol ar Bwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoliadol, Christine Salmon, wedi gofyn i Glerc y Cynulliad, Paul Silk, am gymorth i drefnu ymweliad astudio â Chynulliad Cenedlaethol Cymru iddi.

2.2 Dywedodd y Cadeirydd fod Ms Salmon yn awyddus iawn i gwrdd ag Aelodau a Swyddogion y Pwyllgor Deddfau ac arsylwi gweithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer delio ag offerynnau statudol. Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor o'r penderfyniad i'w gwahodd i fynychu cyfarfod o'n Pwyllgor. Felly, bydd Christine yn mynychu'r cyfarfod ar 18$^{fed}$ Mawrth.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**
**LC644 – Gorchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Trosglwyddo Staff) (Cymru) 2003**
3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Safonol.

3.2 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i wallau drafftio ymddangosiadol sy'n ymwneud â'r rhagymadrodd, erthyglau 3 a 4 ac erthygl 5(1)(a). Gellid eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

3.3 Hysbysodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor fod teitl yr adroddiad Cymraeg yn Saesneg. Fe'i cywirwyd yn y fersiwn terfynol.

3.4 Gwnaeth y Pwyllgor hefyd rai sylwadau y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.5 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC644 (adroddiad).

**LC645 – Rheoliadau Canolfannau Preswyl i Deuluoedd (Cymru) 2003**
3.6 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.7 Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd. Fodd bynnag, yn y diwygiadau hyn, mae gwall drafftio wedi codi. Felly, mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i wall drafftio ymddangosiadol sy'n ymwneud â Rheoliad 31(2). Gellid ei gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

3.8 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC645 (adroddiad).

**LC642 – Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2003**
3.9 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.10 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5.

3.11 Gwnaeth y Pwyllgor un sylw y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.12 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad fel LC642 (Adroddiad).

**LC647 – Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2003**
3.13 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.14 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5.

3.15 Mynegodd y Pwyllgor bryder ynglŷn â'r defnydd o'r ymadrodd "pan fydd trychineb unigryw wedi digwydd" yn nodyn esboniadol y Gorchymyn gan yr ystyriwyd ei fod yn ymadrodd rhy anffurfiol. Cytunodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol i ychwanegu'r sylw hwn at yr adroddiad.
**Gweithredu: Ymgynghorydd Cyfreithiol**

3.16 Felly, gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.17 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad fel LC647 (Adroddiad).

**LC641 – Rheoliadau Tenantiaethau Sicr a Meddianaethau Amaethyddol Sicr (Ffurflenni) (Diwygio) (Cymru) 2003**
3.18 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.19 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.20 Hysbysodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor fod 2002 wedi cael ei newid i 2003 yn fersiwn terfynol y fersiynau Cymraeg a Saesneg.

3.21 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad fel LC641 (Adroddiad).

**LC640 – Gorchymyn y Tafod Glas (Cymru) 2003**
3.22 Cyflwynodd Mr Rowlands ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.23 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.24 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad fel LC640 (Adroddiad).

**Eitem 4: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**
4.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 11 Mawrth 2003.